# Partneriaeth Natur Leol Bannau Brycheiniog – Galwad am Ymgeiswyr

## Grant Plygu Perthi Traddodiadol 2024/25

# NODIADAU CANLLAW

## 1/ BETH FYDD Y GRANT YN EI ARIANNU

Plygu perthi yn yr 'arddull draddodiadol' yn unol â'r safonau a nodir yn Llyfryn Canllaw Technegol Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir: Tirwedd a Pheillwyr 2021, Adran 902 Plygu perthi. (Mae canllawiau a safonau pellach ar gael yn adrannau 4, 5 a 6).

Gall y gwaith gael ei wneud gan yr ymgeisydd neu gan gontractwr a gyflogir gan yr ymgeisydd, ond mae'r gyfradd dalu wedi'i gosod ar £15 y fetr (gan gynnwys TAW).

Gellir gosod mwy nag un berth ar fferm ond cofiwch fod hon yn broses gystadleuol ac mae hyd arfaethedig y berth wedi'i gapio ar 300 metr a dim ond un cais fesul fferm neu ffermwr sy'n gymwys.

| **Beth fydd y grant yn ei ariannu** | **Beth na fydd y grant yn ei ariannu** |
|---|---|
| Ffermwyr gweithredol – rhaid i chi gael cyfeirnod cwsmer fferm a rhif prif ddaliad. | Pobl nad ydynt yn ffermwyr. |
| Perthi sydd wrth ymyl neu o fewn 50m i Hawliau Tramwy Cyhoeddus (gan gynnwys ffyrdd a thir comin). | Perthi nad ydynt wrth ymyl neu o fewn 50m i Hawl Tramwy Cyhoeddus. |
| Perthi lle mae'r ddwy ochr yn eiddo i'r ymgeisydd. | Perthi y mae'r ymgeisydd yn berchen ar un ochr ohonynt yn unig. |
| Perthi o fewn ardal APCBB. | Perthi y tu allan i ardal APCBB (Map ar gael i gadarnhau). |
| Ymgeiswyr nad ydynt eisoes yn derbyn grantiau neu daliadau ar gyfer y gwaith arfaethedig. | Ymgeiswyr sydd eisoes yn derbyn grantiau neu daliadau ar gyfer y gwaith arfaethedig. |
| Perthi y tu allan i ardal ddynodedig statudol (e.e. SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig)). | Perthi o fewn ardal ddynodedig statudol (e.e. SoDdGA, ACA). |

| | |
|---|---|
| Perthi o fewn Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol neu Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur. | |
| Perthi sy'n gwella cysylltedd yn y dirwedd e.e. cysylltu â pherth arall, coedlan, coetir ac ati. | Perthi sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain nad ydynt yn gwella cysylltedd yn y dirwedd. |
| Rhaid (gallu) cwblhau'r gwaith erbyn 28 Chwefror 2025. | Gwaith na ellir gwarantu y bydd wedi'i gwblhau erbyn 28 Chwefror 2025. |
| Dim ond un cais fesul rhif daliad fferm ac ymgeisydd fferm | Ceisiadau lluosog |
| Ymgeiswyr sy'n ymrwymo i reolaeth gydymdeimladol hirdymor o'r berth (10+ mlynedd) *1 | Ymgeiswyr nad ydynt yn gallu ymrwymo i reolaeth gydymdeimladol hirdymor o'r berth (10+ mlynedd) *1 |
| Perthi yn y dirwedd ehangach | Perthi gardd neu dŷ |

*1 Trafodir sut i reoli eich perthi yn gydymdeimladol yn adran 6

## 2/ CYFRADDAU TALU AC AMSERLENNI

- Bydd y grant yn cynnig taliad ar gyfradd benodedig o £15 y fetr, ni fyddwn yn talu TAW ar ben hyn.
- Caiff nifer y metrau o blygu perthi ei gapio ar gyfanswm o 300m fesul fferm.
- Bydd y taliad yn cael ei wneud yn ôl-ddyledus.
- Dim ond un cais fesul ffermwr/fferm.
- Bydd y cyfnod ymgeisio yn agor ddydd Llun 2 Medi ac yn cau ddydd Llun 30 Medi am hanner dydd.
- Bydd pob cais yn cael ei brosesu gan y panel grantiau yn ystod pythefnos gyntaf mis Hydref.
- Bydd ymgeiswyr yn clywed a ydyn nhw wedi bod yn llwyddiannus erbyn dydd Llun 28 Hydref.
- Dim ond unwaith y bydd contract yn cael ei lofnodi gan y ddau barti y gall y gwaith ddechrau.
- Rhaid cwblhau'r gwaith a chyflwyno ceisiadau grant erbyn 28 Chwefror 2025. NODER : Ni fydd modd hawlio am unrhyw waith na ellir ei gwblhau erbyn hynny.
- Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, cysylltwch â hedgerowgrant@beacons-npa.gov.uk a bydd archwiliad safle yn cael ei drefnu.
- Yn amodol ar archwiliad safle llwyddiannus bydd eich taliad wedyn yn cael ei gyhoeddi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## 3/ SUT I WNEUD CAIS

Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn llawn a phenderfynwch sut y gallwch fodloni'r holl feini prawf angenrheidiol cyn gwneud cais.

Llenwch y ffurflen gais sydd ar gael o: WEFAN APCBB (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) neu hedgerowgrant@beacons-npa.gov.uk

Am drafodaeth neu unrhyw ymholiadau, cysylltwch â hedgerowgrant@beacons-npa.go.uk

## 4/ SAFONAU DISGWYLIEDIG PERTHI

**Cymerwyd o ganllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yn Llyfryn Canllaw Technegol Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir: Tirwedd a Pheillwyr 2021, Adran 902 Plygu perthi.**

- Sicrhewch fod yr hen ffens neu wifrau wedi'u tynnu yn gyfan gwbl.
- Plygwch y berth trwy dorri'n rhannol trwy goesynnau addas ar lefel y ddaear, ar ongl o tua 30°.
- Gosodwch y coesynnau toredig mor agos at lefel y ddaear â phosibl, a'u sefydlogi gyda physt.
- Cadwch bob coeden fawr, aeddfed lle mae gwaith adnewyddu perthi yn cael ei wneud, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion fel tyllau, holltau, craciau neu orchudd eiddew trwchus gan fod y rhain yn darparu safleoedd clwydo ar gyfer ystlumod.
- Sicrhewch fod o leiaf 1m rhwng yr hyn sy'n cael ei blannu o'r newydd a ffensio amddiffynnol.
- Sicrhewch y gall y berth dyfu i led o 3m. Rhaid cael bwlch o 3m o leiaf rhwng ffensys dwbl.
- Peidiwch â:
  - Defnyddio weiren neu gortyn byrnu i sefydlogi'r pyst na'r coesynnau toredig.
  - Plannu unrhyw goed ynn fel rhan o unrhyw gymysgedd plannu, oherwydd clefyd coed ynn (*Chalara fraxinea*), naill ai ar gyfer coetiroedd neu wrth sefydlu neu adfer gwrychoedd.
  - Achosi difrod i unrhyw fanciau perthi presennol wrth baratoi'r tir, plannu neu ffensio.
  - Defnyddio coed a llwyni fel pyst tynnu neu byst ffensio, neu eu defnyddio i gefnogi weiren ffensio, styffylau neu rwyd.

**Canllawiau ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol yn ychwanegol at y manylebau uchod:**

- Yn dibynnu ar faint o bren sy'n cael ei gwympo, efallai y bydd angen i chi gael Trwydded Cwympo Coed gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Sicrhewch fod gennych y Drwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd briodol os ydych chi'n plannu neu'n ffensio ger prif afon, gorlifdir neu strwythur amddiffyn

rhag llifogydd. Fel arall, gwnewch yn siŵr fod gennych y Caniatâd Cwrs Dŵr Arferol priodol os ydych chi'n gwneud gwaith ger cwrs dŵr cyffredin. Dylid cadw'r drwydded/caniatâd (neu gadarnhad nad oes angen trwydded/caniatâd) a'u rhoi ar gael ar gais.

- Os ydych chi'n gwneud unrhyw chwistrellu fel rhan o'r gweithgaredd hwn, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael unrhyw ganiatâd a allai fod yn angenrheidiol.
- Pan fydd gweithgareddau'n cynnwys gosod dodrefn mynediad megis camfeydd neu gatiau ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn cael cymeradwyaeth o dan Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980 gan yr Awdurdod Priffyrdd priodol.
- Gwnewch waith adfer perthi rhwng dyddiadau a ganiateir gan reolau Trawsgydymffurfio
- Bydd cyfyngu ar y dyddiadau adfer ymhellach i rhwng Tachwedd a Mawrth hyd yn oed yn fwy buddiol i fywyd gwyllt fel pathewod.
- Dylai coesynnau i'w gosod fod tua 5cm – 10cm o drwch ar y gwaelod, ac yn 2.5m – 3.5m o uchder. Y tu hwnt i hyn, dylid ystyried bondocio fel dewis mwy addas.
- Bydd 1 fetr ychwanegol ar y gwaelod rhwng perth a ffens (ar ben y lled lleiaf o 3 metr) yn creu cynefin bywyd gwyllt ychwanegol.
- Os ydych chi'n plannu unrhyw fylchau, bydd defnyddio'r detholiad ehangaf o rywogaethau sydd ar gael yn creu dewis mwy o ffynonellau bwyd ar gyfer bywyd gwyllt.
- Ceisiwch blygu perthi yn ystod misoedd y gaeaf rhwng Tachwedd a Mawrth.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, dilynwch ddulliau ac arferion traddodiadol lleol.
- Er budd bioamrywiaeth, peidiwch â gwaredu mwy o ysgaw nag sy'n angenrheidiol a thociwch unrhyw fieri, drysi neu dwf dringo arall lle mae'n rhwystro gwaith plygu.
- Dylid plygu perthi i fyny'r llethr ac i'r un cyfeiriad lle bynnag y bo modd.
- Cadwch goed ynn presennol lle bo hynny'n bosibl.
- Cadwch yr holl goed aeddfed mawr wrth wneud gwaith adnewyddu perthi, oherwydd gall y rhain ddarparu safleoedd clwydo ar gyfer ystlumod.
- Lle mae angen gwneud gwaith ar goeden sydd wedi'i nodi fel clwyd ystlumod (naill ai gan fod ystlumod yn bresennol neu fod arwyddion o ddefnydd gan ystlumod wedi'u gweld), rhaid cael trwydded Rheoliadau Cynefinoedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 5/ LLUNIAU O ARDDULLIAU PERTHI LLEOL



Llun 1: Enghraifft o berth 'Brycheiniog'



Llun 2: Enghraifft o berth 'Sir Gâr' (h) Malcolm Edwards

Llun 3: Enghraifft o berth ‘Sir Fynwy’



## 6/ RHEOLAETH GYDYMDEIMLADOL O BERTHI

Ar ôl ei phlygu, dylai’r berth gael ei gadael am o leiaf 2 flynedd, ac yna ei thocio. Gellir ei chynnal trwy docio’n rheolaidd bob rhyw ddwy flynedd.

Pan ddaw'r berth yn fylchog ar y gwaelod dylid ei hochri am 2-3 blynedd i ganiatáu i'r egin cryf arweiniol dyfu, a dilyn y broses blygu eto.

Gall cylchdroadau plygu perthi amrywio rhwng 10 a 30 mlynedd.

Mae canllawiau ar sut i reoli perthi ar gael ar dudalennau gwe APCBB:

Perthi | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (beacons-npa.gov.uk)

Mae mwy o wybodaeth am berthi ar gael yn Guidance | Hedgelink

## 7/ MAP O FFIN Y PARC CENEDLAETHOL

Rhaid i'ch perth fod o fewn Ffin y Parc Cenedlaethol. Os nad ydych yn siŵr, e-bostiwch hedgerowgrant@beacons.gov.uk i gadarnhau cyn cyflwyno cais.




## 8/ MANYLION CYSWLLT

Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost canlynol ar gyfer pob ymholiad:

### Hedgerowgrant@beacons-npa.gov.uk

Neu ffoniwch

Beverley Lewis – 07854 997 508 (Llun-Mercher a Gwener)

David Jermyn – 07854 997 552 (Llun-Gwener)